Lefel Sylfaen

Darlith 4

Dechrau sgwrsio / Cyflwyno eich hun

Nodiadau i'r tiwtor

Yn y ddarlith hon, bydd y ffocws ar:	Technegau caffael iaith a ddefnyddir:	Bydd angen yr adnoddau canlynol arnoch chi:
• adolygu'r ddarlith flaenorol – Cyfarchion / Y Treiglad Meddal / Pwy wyt ti? • Sut wyt ti? / Sut ydych chi? • Ble wyt ti'n byw? (+ treiglad trwynol) • Hoffi / Ddim yn hoffi • Eisiau • Beth ydy dy hoff ...? • Oes ... gyda ti?	• Drilio – dril ailadrodd / cwestiwn ac ateb • Chwarae gêm – defnyddio pêl er mwyn rhoi cyfle i ymarfer holi ac ateb cwestiwn • Chwarae gêm - Pwy ydw i?	• byrddau gwyn bach unigol • peli meddal • sach geiriau

Nodiadau i'r tiwtor

Yn y ddarlith hon, bydd y ffocws ar:	Technegau caffael iaith a ddefnyddir:	Bydd angen yr adnoddau canlynol arnoch chi:
• adolygu'r ddarlith flaenorol – Cyfarchion / Y Treiglad Meddal / Pwy wyt ti? • Sut wyt ti? / Sut dach chi? • Lle wyt ti'n byw? (+ treiglad trwynol) • Hoffi / Licio • Isio • Be ydy dy hoff ...? • Oes gen ti ...?	• Drilio – dril ailadrodd / cwestiwn ac ateb • Chwarae gêm – defnyddio pêl er mwyn rhoi cyfle i ymarfer holi ac ateb cwestiwn • Chwarae gêm - Pwy ydw i?	• byrddau gwyn bach unigol • peli meddal • sach geiriau

Allwedd



Ailadrodd

Ymarfer ar lafar (yn unigol)

Tasg wrando



Gwaith pâr

Grŵp o dri



Gwaith grŵp



Amser canu

Gwaith ar y byrddau gwyn

Tasg ysgrifennu



Tasg ddarllen

Help llaw



Tystiolaeth i’r Portffolio

Cyfarchion *Greetings*

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*
Beth am ddefnyddio lleisiau gwahanol, e.e. yn uchel, yn isel, yn araf, yn gyflym, a.y.y.b?

Helô!	*Hello!*
Bore da.	*Good morning.*
Prynhawn da.	*Good afternoon.*
Noswaith dda.	*Good evening.*
Sut mae?	*How are you?*

Cyfarchion *Greetings*

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*
Be am ddefnyddio lleisiau gwahanol, e.e. yn uchel, yn isel, yn araf, yn gyflym, a.y.y.b?

Helô!	*Hello!*
Bore da.	*Good morning.*
Prynhawn da.	*Good afternoon.*
Noswaith <u>dd</u>a.	*Good evening.*
Sut mae?	*How are you?*

Pa gyfarchion fyddet / faset ti’n eu defnyddio am ...?
Which greeting would you use at ...?



08.30 y.b.

10.00 y.b.

12.30 y.p.

02.15 y.p..

04.00 y.p.

07.30 y.b.

08.00 y.h.

03.30 y.p.

Y Treigladau

Treiglad ydy pan fod llythyren gyntaf gair yn newid. Mae'r newid yn digwydd o ganlyniad i'r gair sy'n dod o'i flaen.
A mutation is when a consonant changes at the beginning of a word. This occurs because of a word or phrase preceding it.

Dim ond y naw llythyren yma sy'n treiglo:
Only these 9 letters mutate:

p t c b d g ll m rh

Mae tri math gwahanol o dreigladau:
There are three different mutations:

1. **Treiglad Meddal** *(Soft Mutation)*
2. **Treiglad Trwynol** *(Nasal Mutation)*
3. **Treiglad Llaes** *(Aspirate Mutation)*

Y tabl treiglo

Llythyren cyn treiglo *Original letter*	**Treiglad Meddal** *Soft Mutation*	**Treiglad Trwynol** *Nasal Mutation*	**Treiglad Llaes** *Aspirate Mutation*
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	-	ng	
ll	l		
m	f		
rh	r		

Y Treiglad Meddal

p	t	c	b	d	g	ll	m	rh
↓	↓	↓	↓	↓	↓	↓	↓	↓
b	d	g	f	dd	-	l	f	r

Cyfarchion yn y dosbarth

Bore da, blant.

Bore da, bawb.

Prynhawn da, ddosbarth.

Prynhawn da, Flwyddyn 3.

Yn y Gymraeg mae treiglad ar ôl cyfarchiad. Rydyn ni'n dweud:
In Welsh there is a soft mutation after a greeting. We say:

Helô, blant.

Sut wyt ti?

Sut wyt ti?

Sut ydych chi?

‘**ti**’ *and* ‘**chi**’
both mean you

ti

'**ti**' *is used when addressing* *one* *person, e.g. a friend, a relative, a learner*

chi

'**chi**' *is used when addressing* *more than one* *person, e.g. a whole class, a group of learners*

'**chi**' *is also used when addressing a person formally, e.g. the Head, a parent, a visitor to school*

Sut wyt ti?

Sut wyt ti?

Sut dach chi?

‘**ti**’ *and* ‘**chi**’
both mean you

<u>ti</u>

'**ti**' *is used when addressing <u>one</u> person, e.g. a friend, a relative, a learner*

<u>chi</u>

'**chi**' *is used when addressing <u>more than one</u> person, e.g. a whole class, a group of learners*

'**chi**' *is also used when addressing a person formally, e.g. the Head, a parent, a visitor to school*

Sut wyt ti?

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*

Sut wyt ti?	*How are you? (singular)*
Sut ydych chi?	*How are you? (plural)*
Da iawn, diolch.	*Very well, thank you.*
Gweddol.	*O.K.*
Wedi blino.	*Tired.*
Ofnadwy.	*Terrible.*

Sut wyt ti?

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*

Sut wyt ti?	*How are you? (singular)*
Sut dach chi?	*How are you? (plural)*
Da iawn, diolch.	*Very well, thank you.*
Gweddol.	*O.K.*
Wedi blino.	*Tired.*
Ofnadwy.	*Terrible.*

Yn y dosbarth – Sut wyt ti heddiw?

Rydw i'n iawn, diolch.
Dw i'n iawn, diolch.

Rydw i'n hapus.
Dw i'n hapus.

Rydw i'n drist.
Dw i'n drist.

Rydw i wedi blino.
Dw i wedi blino.

Rydw i'n nerfus.
Dw i'n nerfus.

Rydw i'n fendigedig.
Dw i'n fendigedig.

Rydw i'n sâl.
Dw i'n sâl.

Yn y dosbarth – Sut wyt ti heddiw?

Rydw i’n iawn, diolch.
Dw i'n iawn, diolch.

Rydw i’n hapus.
Dw i'n hapus.

Rydw i’n drist.
Dw i'n drist.

Rydw i wedi blino.
Dw i wedi blino.

Rydw i’n nerfus.
Dw i'n nerfus.

Rydw i’n fendigedig.
Dw i'n fendigedig.



Rydw i’n dost.
Dw i'n dost.

Yn y dosbarth – Sut ydych <u>chi</u> heddiw?

Rydyn ni'n iawn, diolch.
'Dyn ni'n iawn, diolch.

Rydyn ni'n hapus.
'Dyn ni'n hapus.

Rydyn ni'n <u>**d**</u>rist.
'Dyn ni'n <u>**d**</u>rist.

Rydyn ni wedi blino.
'Dyn ni wedi blino.

Rydyn ni'n nerfus.
'Dyn ni'n nerfus.

Rydyn ni'n <u>**f**</u>endigedig.
'Dyn ni'n <u>**f**</u>endigedig.

Rydyn ni'n sâl.
'Dyn ni'n sâl.

Yn y dosbarth – Sut dach chi heddiw?

Dan ni'n iawn, diolch.

Dan ni'n hapus.

Dan ni'n drist.

Dan ni wedi blino.

Dan ni'n nerfus.

Dan ni'n fendigedig.

Dan ni'n dost.

Adjectives mutate softly (**treiglad meddal**) after ‘**yn**’:

- bendigedig > Dw i'n **f**endigedig.
  Rydyn ni'n **f**endigedig.

- gweddol > Dw i'n **d**rist.
  Rydyn ni'n **d**rist.

Adjectives mutate softly (**treiglad meddal**) after ‘**yn**’:

- bendigedig > Dw i'n **f**endigedig.
  Dan ni'n **f**endigedig.
- gweddol > Dw i'n **d**rist.
  Dan ni'n **d**rist.

Rhowch gynnig arni! *Give it a go!*



A: **Bore da!**

B: **Bore da! Sut wyt ti heddiw?**

A: **Rydw i'n iawn, diolch. Sut wyt ti?**

B: **Rydw i’n hapus, diolch.**

A: **Pwy wyt ti?**

B: **Sara ydw i. Pwy wyt ti?**

A: **Rhys ydw i.**

B: **Hwyl fawr!**

Codwch a sgwrsiwch! *Get up and chat!*



Pwy wyt ti?	Sut wyt ti?
1.	
2.	
3.	
4.	
5.	

Cyfieithwch y sgwrs gan ddefnyddio’r patrymau ddysgoch chi heddiw.
Translate the conversation by using the Welsh patterns you learnt today.



A: **Good afternoon!**

B: **Hello! Who are you?**

A: **I am Siân. Who are you?**

B: **I am Jac Rees.**

A: **How are you today?**

B: **I am fine, thank you. How are you?**

A: **I am nervous.**

B: **Oh no!**

Ble wyt ti'n byw?

Pen-y-bont	>	**Rydw i'n byw ym Mhen-y-bont.**
Penant	>	**Dw i'n byw ym Mhenant.**
Tregaron	>	**Rydw i'n byw yn Nhregaron.**
Talybont	>	**Dw i'n byw yn Nhalybont.**
Caerdydd	>	**Rydw i'n byw yng Nghaerdydd.**
Caernarfon	>	**Dw i'n byw yng Nghaernarfon.**
Bangor	>	**Rydw i'n byw ym Mangor.**
Dol-y-bont	>	**Dw i'n byw yn Nol-y-bont.**
Gwynedd	>	**Dw i'n byw yng Ngwynedd.**

p	**>**	**mh**
t	**>**	**nh**
c	**>**	**ngh**
b	**>**	**m**
d	**>**	**n**
g	**>**	**ng**

'**yn**' + **place name** = **Treiglad Trwynol** *(Nasal Mutation)*

Lle wyt ti’n byw?

Pen-y-bont	>	**Rydw i’n byw ym Mhen-y-bont.**
Penant	>	**Dw i’n byw ym Mhenant.**
Tregaron	>	**Rydw i’n byw yn Nhregaron.**
Talybont	>	**Dw i’n byw yn Nhalybont.**
Caerdydd	>	**Rydw i’n byw yng Nghaerdydd.**
Caernarfon	>	**Dw i’n byw yng Nghaernarfon.**
Bangor	>	**Rydw i’n byw ym Mangor.**
Dol-y-bont	>	**Dw i’n byw yn Nol-y-bont.**
Gwynedd	>	**Dw i’n byw yng Ngwynedd.**

p	**>**	**mh**
t	**>**	**nh**
c	**>**	**ngh**
b	**>**	**m**
d	**>**	**n**
g	**>**	**ng**

'**yn**' + **place name** = **Treiglad Trwynol** *(Nasal Mutation)*

Y Treiglad Trwynol

p	t	c	b	d	g
↓	↓	↓	↓	↓	↓
mh	nh	ngh	m	n	ng

Ble wyt ti'n byw?

Rydw i'n byw yn Aberystwyth.

Dw i'n byw yn Llantrisant.

Does DIM treiglad am fod y llefydd hyn yn dechrau gyda'r llythrennau 'A' neu 'Ll' sydd ddim yn treiglo'n drwynol.
There is no mutation here as these place names begin with the letters 'A or 'Ll' and they do NOT take a nasal mutation.

Lle wyt ti'n byw?

Rydw i'n byw yn Aberystwyth.

Dw i'n byw yn Llantrisant.

Does DIM treiglad am fod y llefydd hyn yn dechrau gyda'r llythrennau 'A' neu 'Ll' sydd ddim yn treiglo'n drwynol.
There is no mutation here as these place names begin with the letters 'A or 'Ll' and they do NOT take a nasal mutation.

Rydw i'n byw ym...

Powys

Rydw i'n byw yn...

Tonna

Rydw i'n byw yng...

Caerdydd

Rydw i'n byw ym...

Bangor

Rydw i'n byw yn...

Dinbych

Rydw i'n byw yng...

Gorseinon

Rydw i'n byw ym...

Meidrim

Rydw i'n byw yn...

Llanelli

Rydw i'n byw yn...

Rhos

Ble wyt ti'n byw?



Rydw i'n byw yn …
Dw i'n byw yn …
I live in …

yn + Aberaeron

yn + Pontyberem

yn + Llanbed

yn + Caerfyrddin

yn + Tymbl

yn + Dinbych

yn + Caergybi

Lle wyt ti'n byw?



Rydw i'n byw yn …
Dw i'n byw yn …
I live in …

yn + Aberaeron

yn + Pontyberem

yn + Llanbed

yn + Caerfyrddin

yn + Tymbl

yn + Dinbych

yn + Caergybi

Ble wyt ti'n byw?

tŷ ar wahân

byngalo

tŷ teras

fflat

tŷ pâr

bwthyn

ffermdy

carafán

Lle wyt ti’n byw?

tŷ ar wahân

byngalo

tŷ teras

fflat

tŷ pâr

bwthyn

ffermdy

carafán

Ble wyt ti'n byw?

Dw i'n byw yng Ngheredigion mewn tŷ ar wahân.

Dw i'n byw ym Mangor mewn fflat.

RHEOL

yn = lle penodol
(definite place)

mewn = lle amhenodol
(indefinite place)

Lle wyt ti'n byw?

Dw i'n byw yng Ngheredigion mewn tŷ ar wahân.

Dw i'n byw ym Mangor mewn fflat.

RHEOL

yn = lle penodol
(definite place)

mewn = lle amhenodol
(indefinite place)

O ble wyt ti'n dod yn wreiddiol?

Where do you come from originally?

Pen-y-bont	>	**Rydw i’n dod o Ben-y-bont yn wreiddiol.**
Tregaron	>	**Rydw i’n dod o Dregaron yn wreiddiol.**
Caerdydd	>	**Dw i’n dod o Gaerdydd yn wreiddiol.**
Bangor	>	**Dw i’n dod o Fangor yn wreiddiol.**
Dinbych	>	**Dw i'n dod o Ddinbych.**
Gwynedd	>	**Dw i’n dod o _Wynedd.**
Meidrim	>	**Dw i'n dod o Feidrim.**
Llanelli	>	**Dw i'n dod o Lanelli.**
Rhos	>	**Dw i'n dod o Ros yn wreiddiol.**

p	>	b
t	>	d
c	>	g
b	>	f
d	>	dd
g	>	/
m	>	f
ll	>	l
rh	>	r

'dod o' + Treiglad Meddal *(Soft Mutation)*

O lle wyt ti'n dŵad yn wreiddiol?

Where do you come from originally?

Pen-y-bont	>	**Rydw i'n dŵad o Ben-y-bont yn wreiddiol.**
Tregaron	>	**Rydw i'n dŵad o Dregaron yn wreiddiol.**
Caerdydd	>	**Dw i'n dŵad o Gaerdydd yn wreiddiol.**
Bangor	>	**Dw i'n dŵad o Fangor yn wreiddiol.**
Dinbych	>	**Dw i'n dŵad o Ddinbych.**
Gwynedd	>	**Dw i'n dŵad o _Wynedd.**
Meidrim	>	**Dw i'n dŵad o Feidrim.**
Llanelli	>	**Dw i'n dŵad o Lanelli.**
Rhos	>	**Dw i'n dŵad o Ros yn wreiddiol.**

'**dŵad o**' + **Treiglad Meddal** *(Soft Mutation)*

p	**>**	**b**
t	**>**	**d**
c	**>**	**g**
b	**>**	**f**
d	**>**	**dd**
g	**>**	**/**
m	**>**	**f**
ll	**>**	**l**
rh	**>**	**r**

Rydw i'n dod / dŵad o ...

Powys

Rydw i'n dod / dŵad o ...

Tonna

Rydw i'n dod / dŵad o ...

Caerdydd

Rydw i'n dod / dŵad o ...

Bangor

Rydw i'n dod / dŵad o ...

Dinbych

Rydw i'n dod / dŵad o ...

Gorseinon

Rydw i'n dod / dŵad o ...

Meidrim

Rydw i'n dod / dŵad o ...

Llanelli

Rydw i'n dod / dŵad o ...

Rhos

Y Cwmpawd

Gogledd

Gorllewin

Dwyrain

De

Ble mae …?

- Mae Bangor a Wrecsam yng ngogledd Cymru.
- Mae Caerfyrddin a Chasnewydd yn ne Cymru.
- Mae Casnewydd a Wrecsam yn nwyrain Cymru.
- Mae Caerfyrddin a Bangor yng ngorllewin Cymru.

Lle mae ...?

- Mae Bangor a Wrecsam yng ngogledd Cymru.
- Mae Caerfyrddin a Chasnewydd yn ne Cymru.
- Mae Casnewydd a Wrecsam yn nwyrain Cymru.
- Mae Caerfyrddin a Bangor yng ngorllewin Cymru.

Ble wyt ti'n byw?



Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:

1. Bydd angen peli arnoch chi.
2. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 6.
3. Rhowch bêl i un aelod o'r grwp.
4. Gofynnwch iddo/iddi daflu'r bêl at aelod arall o'r grwp. Bydd angen iddo/iddi ofyn y cwestiwn "**Ble wyt ti'n byw?**"
5. Bydd y person sydd wedi dal y bêl yn ateb y cwestiwn cyn ei thaflu at berson arall. Bydd angen iddo/iddi ofyn yr un cwestiwn eto.
6. Bydd pawb yn y grwp yn cael cyfle i ymarfer holi ac ateb y cwestiwn.

Lle wyt ti'n byw?



Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:

1. Mi fydd angen peli arnoch chi.
2. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 6.
3. Rhowch bêl i un aelod o'r grwp.
4. Gofynnwch iddo/iddi daflu'r bêl at aelod arall o'r grwp. Mi fydd angen iddo/iddi ofyn y cwestiwn "**Lle wyt ti'n byw?**"
5. Mi fydd y person sydd wedi dal y bêl yn ateb y cwestiwn cyn ei thaflu at berson arall. Mi fydd angen iddo/iddi ofyn yr un cwestiwn eto.
6. Mi fydd pawb yn y grwp yn cael cyfle i ymarfer holi ac ateb y cwestiwn.

Ble wyt ti’n byw?



- **Dw i’n byw yn ...** (+ treiglad trwynol)
- **Dw i'n dod o …** (+ treiglad medddal) **yn wreiddiol.**
- **Dw i'n byw mewn …**
- **Mae … yn … Cymru.**

Lle wyt ti'n byw?



- **Dw i'n byw yn ...** (+ treiglad trwynol)
- **Dw i'n dŵad o …** (+ treiglad medddal) **yn wreiddiol.**
- **Dw i'n byw mewn …**
- **Mae … yn … Cymru.**

Beth wyt ti'n hoffi? *What do you like?*

Beth wyt ti'n hoffi?	*What do you like? (singular)*
Rydw i'n hoffi ...	*I like ...*
Dw i'n hoffi ...	
Beth rydych chi'n hoffi?	*What do you like? (formal singular / plural)*
Rydw i'n hoffi ...	*I like ...*
Dw i'n hoffi ...	
Rydyn ni'n hoffi ...	*We like ...*
'Dyn ni'n hoffi ...	

Be wyt ti'n hoffi / licio? *What do you like?*

Be wyt ti'n hoffi / licio?	*What do you like? (singular)*
Rydw i'n hoffi / licio ...	*I like ...*
Dw i'n hoffi / licio ...	
Be dach chi'n hoffi / licio?	*What do you like? (formal singular / plural)*
Rydw i'n hoffi / licio ...	*I like ...*
Dw i'n hoffi / licio ...	
Dan ni'n hoffi / licio ...	*We like ...*

Beth dwyt ti ddim yn hoffi?

Welsh	English
Beth dwyt ti ddim yn hoffi?	*What don't you like? (singular)*
Dydw i ddim yn hoffi ...	*I don't like ...*
Dw i ddim yn hoffi ...	
Beth dydych chi ddim yn hoffi?	*What don't you like? (formal singular / plural)*
Dydw i ddim yn hoffi ...	*I don't like ...*
Dw i ddim yn hoffi ...	
Dydyn ni ddim yn hoffi ...	*We don't like ...*
'Dyn ni ddim yn hoffi ...	

Be dwyt ti ddim yn hoffi / licio?

Be dwyt ti ddim yn hoffi / licio?	*What don't you like? (singular)*
Dydw i ddim yn hoffi / licio ...	*I don't like ...*
Dw i ddim yn hoffi / licio ...	
Be dach chi ddim yn hoffi / licio?	*What don't you like? (formal / plural)*
Dydw i ddim yn hoffi / licio ...	*I don't like ...*
Dw i ddim yn hoffi / licio ...	
Dan ni ddim yn hoffi / licio ...	*We don't like ...*

Pam?!

Rydw i'n hoffi ... **achos**...
Dw i'n hoffi ... **achos**...

mae'n hwyl.
mae'n ddiddorol.
mae'n fendigedig.
mae'n ffordd dda i ymlacio.
dw i'n hoffi cadw'n heini.
dw i'n hoffi ennill!
dw i'n gystadleuol.
dw i'n hoffi cael awyr iach.

Pam?!

Dydw i ddim yn hoffi ... **achos**...
Dw i ddim yn hoffi ... **achos**...

mae'n ddiflas.
mae'n anodd.
dw i ddim yn hoffi cadw'n heini.
dw i ddim yn hoffi bod tu mewn.
dw i ddim yn hoffi bod tu allan.
dw i ddim yn hoffi colli.
dw i ddim yn gystadleuol.

Beth wyt ti'n hoffi?
Beth dwyt ti ddim yn hoffi?





Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:

1. Bydd angen sach fach arnoch chi.
2. Rhowch y cardiau (sleidiau nesaf) yn y sach.
3. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 3 neu 4.
4. Rhowch sach i bob grwp.
5. Bydd angen i un myfyriwr ddechrau'r gêm drwy holi: "**Beth wyt ti'n hoffi, Rhys?**"
6. Bydd Rhys yn dewis cerdyn o'r sach ac yn ymarfer y patrwm: "**Rydw i'n hoffi ... / Dw i'n hoffi ...**"

Be wyt ti'n hoffi / licio?
Be dwyt ti ddim yn hoffi / licio?



Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:

1. Mi fydd angen sach fach arnoch chi.
2. Rhowch y cardiau (sleidiau nesaf) yn y sach.
3. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 3 neu 4.
4. Rhowch sach i bob grwp.
5. Mi fydd angen i un myfyriwr ddechrau'r gêm drwy holi: "**Be wyt ti'n hoffi, Rhys?**"
6. Mi fydd Rhys yn dewis cerdyn o'r sach ac yn ymarfer y patrwm: "**Rydw i'n hoffi ...** / **Dw i'n hoffi ...**"

te	**coffi**	**sudd afal** 	**dŵr** 
darllen 	**gwylio’r teledu** 	**rhedeg**	**cerdded**
nofio 	**canu**	**dawnsio**	**pitsa** 

Cymraeg	**Saesneg**	**Mathemateg**	**Gwyddoniaeth**
Daearyddiaeth	**Hanes**	**Celf**	**Addysg Grefyddol**
Cerddoriaeth	**Addysg Gorfforol**	**Technoleg Gwybodaeth**	**Ffrangeg**

Codwch a sgwrsiwch!



Pwy wyt ti?	Sut wyt ti?	Ble wyt ti'n byw?	Beth wyt ti'n hoffi?	Beth dwyt ti ddim yn hoffi?
1.				
2.				
3.				
4.				
5.				

Codwch a sgwrsiwch!



Pwy wyt ti?	Sut wyt ti?	Lle wyt ti’n byw?	Be wyt ti’n hoffi?	Be dwyt ti ddim yn hoffi?
1.				
2.				
3.				
4.				
5.				

Wyt ti'n hoffi? *Do you like?*

Wyt ti'n hoffi siocled?

Wyt ti'n hoffi darllen?

Wyt ti'n hoffi Mathemateg?

Wyt ti'n hoffi dysgu Cymraeg?

Ydw

Nac ydw

Wyt ti'n hoffi / licio? *Do you like?*

Wyt ti'n hoffi / licio siocled?

Wyt ti'n hoffi / licio darllen?

Wyt ti'n hoffi / licio Mathemateg?

Wyt ti'n hoffi / licio dysgu Cymraeg?

Ydw

Nac ydw

Wyt ti'n hoffi?

Wyt ti'n hoffi dysgu Cymraeg?

Ydw, dw i'n hoffi dysgu Cymraeg.

Wyt ti’n hoffi / licio?

Wyt ti'n hoffi / licio dysgu Cymraeg?

Ydw, dw i'n hoffi dysgu Cymraeg.
Ydw, dw i'n licio dysgu Cymraeg.

Ydych chi'n hoffi?

Ydych chi'n hoffi dysgu Cymraeg?

Ydw, dw i'n hoffi dysgu Cymraeg.

Ydyn, rydyn ni'n hoffi dysgu Cymraeg.

Dach chi'n hoffi / licio?

Dach chi'n hoffi / licio dysgu Cymraeg?

Ydw, dw i'n hoffi dysgu Cymraeg.

Ydan, dan ni'n licio dysgu Cymraeg.

Wyt ti'n hoffi?

Wyt ti'n hoffi Mathemateg?

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi Mathemateg.

Wyt ti’n hoffi / licio?

Wyt ti'n hoffi / licio Mathemateg?

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi / licio Mathemateg.

Ydych chi'n hoffi?

Ydych chi'n hoffi Mathemateg?

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi Mathemateg.

Nac ydyn, dydyn ni ddim yn hoffi Mathemateg.

Dach chi'n hoffi / licio?

Dach chi'n hoffi / licio Mathemateg?

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi / licio Mathemateg.

Nac ydan, dan ni ddim yn hoffi / licio Mathemateg.

Pam?!

Ydw, dw i'n hoffi ...

achos...	mae'n hwyl.
	mae'n ddiddorol.
	mae'n fendigedig.
	mae'n ffordd dda i ymlacio.
	dw i'n hoffi cadw'n heini.
	dw i'n hoffi ennill!
	dw i'n gystadleuol.
	dw i'n hoffi cael awyr iach.

Pam?!

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi ...

achos...	mae'n ddiflas.
	mae'n anodd.
	dw i ddim yn hoffi cadw'n heini.
	dw i ddim yn hoffi bod tu mewn.
	dw i ddim yn hoffi bod tu allan.
	dw i ddim yn hoffi colli.
	dw i ddim yn gystadleuol.

Rhowch gynnig arni! *Give it a go!*



Sam:	**Beth wyt ti’n hoffi wneud Alex?**
Alex:	**Wel, rydw i’n hoffi mynd i’r sinema ... ac rydw i’n hoffi gwylio pêl-droed.**
Sam:	**Gwylio pêl-droed!! Dim diolch! Dydw i ddim yn hoffi gwylio pêl-droed. Beth arall wyt ti’n hoffi wneud?**
Alex:	**Rydw i’n hoffi dawnsio.**
Sam:	**Dawnsio!! Dim diolch! Dydw i ddim yn hoffi dawnsio. Beth arall wyt ti’n hoffi wneud?**
Alex:	**Rydw i’n hoffi cadw’n heini.**
Sam:	**Cadw’n heini!! Dim diolch! Dydw i ddim yn hoffi cadw’n heini.**
Alex:	**Beth wyt ti’n hoffi wneud, Sam?**
Sam:	**Wel, rydw i’n hoffi chwarae ar yr X-box!**

Rhowch gynnig arni! *Give it a go!*



Sam:	**Be wyt ti’n hoffi wneud Alex?**
Alex:	**Wel, rydw i’n hoffi mynd i’r sinema ... ac rydw i’n hoffi gwylio pêl-droed.**
Sam:	**Gwylio pêl-droed!! Dim diolch! Dydw i ddim yn hoffi gwylio pêl-droed. Be arall wyt ti’n hoffi wneud?**
Alex:	**Rydw i’n hoffi dawnsio.**
Sam:	**Dawnsio!! Dim diolch! Dydw i ddim yn hoffi dawnsio. Be arall wyt ti’n hoffi wneud?**
Alex:	**Rydw i’n hoffi cadw’n heini.**
Sam:	**Cadw’n heini!! Dim diolch! Dydw i ddim yn hoffi cadw’n heini.**
Alex:	**Be wyt ti’n hoffi wneud, Sam?**
Sam:	**Wel, rydw i’n hoffi chwarae ar yr X-box!**

Gweithiwch mewn parau i baratoi sgyrisiau newydd.

Work in pairs to prepare new sgripts.

A:	
B:	
A:	
B:	
A:	
B:	
A:	
B:	
A:	

Pa …. wyt ti'n hoffi?

Which … do you like?

Pa **liw** *(colour)*	wyt ti'n hoffi?	Rydw i'n hoffi **gwyrdd.**
		Dw i'n hoffi **gwyrdd.**
Pa **ffrwyth** *(fruit)*	wyt ti'n hoffi?	Rydw i'n hoffi **afal.**
		Dw i'n hoffi **afal.**
Pa **lyfr** *(book)*	wyt ti'n hoffi?	Rydw i'n hoffi llyfrau **Harry Potter**.
		Dw i'n hoffi llyfrau **Harry Potter**.

Eisiau *To want*

Dw i eisiau coffi.
Dw i ddim eisiau coffi.

Dw i~~'n~~ eisiau coffi.
Dw i ddim ~~yn~~ eisiau coffi.

Does dim **yn** neu **'n** o flaen '**eisiau**'.

There is no yn or 'n before 'eisiau'.

Isio *To want*

Dw i isio coffi.
Dw i ddim isio coffi.

Dw i~~'n~~ isio coffi.
Dw i ddim ~~yn~~ isio coffi.

Does dim **yn** neu **'n** o flaen 'isio'.

There is no yn or 'n before 'isio'.

Wyt ti eisiau ...? *Do you want ...?*

Dw i'**n** hoffi...	Dw i ddim **yn** hoffi...
Dw i'**n** mynd...	Dw i ddim **yn** mynd...
Dw i'**n** gweithio...	Dw i ddim **yn** gweithio...
Dw i'**n** ysgrifennu...	Dw i ddim **yn** ysgrifennu...
Dw i'**n** darllen...	Dw i ddim **yn** darllen...

OND...

Dw i eisiau... **Dw i ddim eisiau...**

Wyt ti isio ...? *Do you want ...?*

Dw i'**n** hoffi...	Dw i ddim **yn** hoffi...
Dw i'**n** mynd...	Dw i ddim **yn** mynd...
Dw i'**n** gweithio...	Dw i ddim **yn** gweithio...
Dw i'**n** ysgrifennu...	Dw i ddim **yn** ysgrifennu...
Dw i'**n** darllen...	Dw i ddim **yn** darllen...

OND...

Dw i isio... **Dw i ddim isio...**

Wyt ti eisiau?

Wyt ti eisiau llaeth?

Wyt ti eisiau darllen stori?

Wyt ti eisiau pensil?

Wyt ti eisiau chwarae gêm?

Ydw

Nac ydw

Wyt ti isio?

Wyt ti isio llefrith?

Wyt ti isio darllen stori?

Wyt ti isio pensil?

Wyt ti isio chwarae gêm?

Oes / Ydw

Nac oes / Nac ydw

Wyt ti eisiau?

Wyt ti eisiau llaeth?

Ydw, dw i eisiau llaeth.

Wyt ti isio?

Wyt ti isio llefrith?

Ydw, dw i isio llefrith.
Oes, dw isio llefrith.

Wyt ti eisiau?

Wyt ti eisiau chwarae gêm?

Nac ydw, dw i ddim eisiau chwarae gêm.

Wyt ti isio?

Wyt ti isio chwarae gêm?

Nac ydw, dw i ddim isio chwarae gêm.
Nac oes, dw i ddim isio chwarae gêm.

Beth ydy dy hoff ...?

Beth ydy dy hoff fwyd di? *What is your favourite food?*	Cinio dydd Sul. Cinio dydd Sul ydy fy hoff fwyd i. Fy hoff fwyd i ydy cinio dydd Sul.
Beth ydy dy hoff ddiod di? *What is your favourite drink?*	Te. Te ydy fy hoff ddiod i. Fy hoff ddiod i ydy te.
Beth ydy dy hoff liw di? **raglen di?** **gân di?** **lyfr di?** **ffilm di?**	... ... ydy fy hoff ... i. Fy hoff ... i ydy ...

p	**>**	**b**
t	**>**	**d**
c	**>**	**g**
b	**>**	**f**
d	**>**	**dd**
g	**>**	**/**
m	**>**	**f**
ll	**>**	**l**
rh	**>**	**r**

Mae **treiglad meddal** ar ôl '**hoff**'.

Be ydy dy hoff ...?

Be ydy dy hoff fwyd di? *What is your favourite food?*	Cinio dydd Sul. Cinio dydd Sul ydy fy hoff fwyd i. Fy hoff fwyd i ydy cinio dydd Sul.
Be ydy dy hoff ddiod di? *What is your favourite drink?*	Te. Te ydy fy hoff ddiod i. Fy hoff ddiod i ydy te.
Be ydy dy hoff liw di? **raglen di?** **gân di?** **lyfr di?** **ffilm di?**	... ... ydy fy hoff ... i. Fy hoff ... i ydy ...

p	>	b
t	>	d
c	>	g
b	>	f
d	>	dd
g	>	/
m	>	f
ll	>	l
rh	>	r

Mae **treiglad meddal** ar ôl '**hoff**'.

Codwch a sgwrsiwch!



Pwy wyt ti?	Wyt ti'n hoffi ...? Pam?	Wyt ti eisiau ...?	Beth ydy dy hoff ...?
1.			
2.			
3.			
4.			
5.			

Codwch a sgwrsiwch!



Pwy wyt ti?	Wyt ti'n hoffi ...? Pam?	Wyt ti isio ...?	Be ydy dy hoff ...?
1.			
2.			
3.			
4.			
5.			

Oes … gyda ti? *Do you have …?*

Oes pensil gyda ti?

Oes gwallt brown gyda ti?

Oes ci gyda ti?

Oes brawd gyda ti?

Oes

Nac oes

Oes gen ti ...? *Do you have ...?*

Oes gen ti **b**ensil?

Oes gen ti **w**allt brown?

Oes gen ti **g**i?

Oes gen ti **f**rawd?

Oes

Nac oes

Oes ... gyda ti?

Oes gwallt brown gyda ti?

Oes, mae gwallt brown gyda fi.

Oes gen ti ...?

Oes gen ti wallt brown?

Oes, mae gen i wallt brown.

Oes ... gyda ti?

Oes brawd gyda ti?

Nac oes, does dim brawd gyda fi.

Oes gen ti ...?

Oes gen ti frawd?

Nac oes, does gen i ddim brawd.

Gêm - Pwy ydw i?



<u>Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:</u>

1. Bydd myfyrwyr yn chwarae mewn parau.
2. Rhaid i bob person ddewis cymeriad yn gyfrinachol ar y bwrdd gêm.
3. Rhaid i chwaraewyr ofyn cwestiynau i'w gilydd yn eu tro gan ddefnyddio'r patrwm: '**Oes ... gyda ti?**'
4. Rhaid i chwaraewyr ateb gan ddefnyddio'r patrymau: '**Oes, mae ... gyda fi**' neu '**Nac oes, does dim ... gyda fi**'
5. Yr enillydd yw'r person cyntaf i ddyfalu pwy yw'r person arall!

Gêm - Pwy ydw i?



Cyfarwyddiadau i’r tiwtor:

1. Mi fydd myfyrwyr yn chwarae mewn parau.
2. Rhaid i bob person ddewis cymeriad yn gyfrinachol ar y bwrdd gêm.
3. Rhaid i chwaraewyr ofyn cwestiynau i'w gilydd yn eu tro gan ddefnyddio'r patrwm: '**Oes gen ti ...?**'
4. Rhaid i chwaraewyr ateb gan ddefnyddio'r patrymau: '**Oes, mae gen i ...**' neu '**Nac oes, does gen i ddim...**'
5. Yr enillydd ydy'r person cyntaf i ddyfalu pwy ydy'r person arall!

Oes ... gyda ti?

gwallt *(hair)*	du	hir *(long)*
	brown	byr *(short)*
	sinsir *(ginger)*	syth *(straight)*
	golau *(light / blond)*	cyrliog *(curly)*
	tywyll *(dark)*	
llygaid *(eyes)*	mawr	glas
	bach	gwyrdd
		brown
croen *(skin)*	golau	**Oes, mae … gyda fi.** **Nac oes, does dim … gyda fi.**
	tywyll	
bochau *(cheeks)*	coch	
	pinc	

Oes gen ti ...?

gwallt *(hair)*	du	hir *(long)*
	brown	byr *(short)*
	sinsir *(ginger)*	syth *(straight)*
	golau *(light / blond)*	cyrliog *(curly)*
	tywyll *(dark)*	
llygaid *(eyes)*	mawr	glas
	bach	gwyrdd
		brown
croen *(skin)*	golau	**Oes, mae gen i ...** **Nac oes, does gen i ddim ...**
	tywyll	
bochau *(cheeks)*	coch	
	pinc	

Gêm - Pwy ydw i?



sbectol
(glasses)

barf
(beard)

clustdlysau
(earrings)

het
(hat)

mwstas
(moustache)

Tasg i'r Portffolio

Tasg Ysgrifennu 2: Sylfaen A2
(o'r Pecyn Cymorth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Ysgrifennu e-bost yn cyflwyno eich hun ar ddechrau'r cwrs

Write an e-mail introducing yourself at the beginning of the course

Munud i feddwl ... *Time to think ...*

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?
Which language acquisition techniques were used in this lecture?


Drilio

Ymarfer ar lafar (yn unigol)


Gwaith pâr


Grŵp o dri

Tasg ysgrifennu



Da iawn chi!

Daliwch ati!